

THOMAS, SIMON (efallai'n fyw yn 1746), gweinidog Presbyteraidd, ac awdur

Enw: Simon Thomas

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gweinidog Presbyteraidd, ac awdur

Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ychydig dros ben a wyddys amdano. Dywed [D. Lleufer Thomas](#) (yn ysgrif y *D.N.B.* ar [Joshua Thomas](#)) ei fod yn ewythr i hwnnw, ac mai gydag ef yn nhref Henffordd y prentisiwyd [Joshua Thomas](#) yn 1739. Yn ôl [Joshua Thomas](#) (*Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry* , arg. 1af, xxvii) fe'i ganed yn y Cilgwyn, gerllaw Llanbedr-pont-Steffan. Y mae'n eglur iddo gael addysg glasurol yn rhywle. Dywed [T. Eirug Davies](#) ('[Philip Pugh a'i lafur yn y Cilgwyn](#) ', *Cofiadur*, 1937, 31) iddo gael ei ordeinio yn y Cilgwyn yn gynorthwywr i [Philip Pugh](#), ond sylwer na chafodd [Pugh](#) ei hunan mo'i urddo cyn Hydref 1709, er ei fod yn gwasnaethu'r eglwys er 1704. Sut bynnag, y mae'n eglur fod Simon Thomas yn nhref Henffordd erbyn Awst 1711, yn sidanydd, ac yn weinidog (neu'n un o weinidogion) y gynulleidfa yno, oblegid fe'i ceir y pryd hwnnw'n un o dystion ewyllys ei gyd-weinidog h'n John Weaver (*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calфинаidd*, 1943, 105). Ei lyfr cyntaf ac enwocaf oedd [Hanes y Byd a'r Amseroedd](#) , 1718, math o wyddoniadur, gyda phwyslais gwrth-Babyddol amlwg, a fu'n llyfr poblogaidd iawn, ac a ailargraffwyd deirgwaith ([1721](#) , 1724, 1728) yn ystod ei fywyd, a theirgwaith beth bynnag ([1780](#) , [1799](#) , 1824) ar ôl hynny. ' S. T. ' y gelwir yr awdur ar yr wyneb-ddalen, ac fel ' S. T. ' hefyd, yn 1735, y cyhoeddodd [Histori yr Heretic Pelagius](#) . Yn 1741 ymddangosodd *Deonglydd yr Ysgrhythurau*, llyfr di-enw, ond a briodolir yn bur ffyddiog i Simon Thomas; gwrth- Belagaidd yw hwn hefyd; gelwir ef yn 'rhan gyntaf,' ond ni welwyd mo'r ail. Priodola [Ashton](#) iddo hefyd dri llyfr Saesneg. Un o'r rhain yw'r *History of the Cambri*, 1746, a ddisgrifir gan [Syr Thomas Phillipps](#) o Middle Hill yn y *Cambrian Journal*, iv, 328, fel llyfr ' rustically printed on coarse paper,' heb enw awdur na gwasg, ond yr oedd nodyn mewn llawysgrifen ar y copi'n ei briodoli i'r ' Rev. Simon Thomas,' a dywedir yn fynych fod ganddo ef wasg breifat, ac y byddai'n argraffu ei lyfrau gartref. Os ef yn wir a wnaeth y llyfr hwn, yna yr oedd yn fyw yn 1746; dywedir yn gyffredin mai tua 1743 y bu farw - ni ddywed [Joshua Thomas](#) (loc. cit.), ond 'nid hir wedyn,' h.y. ar ôl 1742, 'y bu farw' (gweler hefyd yr ysgrif ar [Nicholas Thomas](#)).

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850 (1893), dan y blynyddoedd a nodwyd

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893), 159-61

a'r cyfeiriadau eraill a roddwyd uchod

Gweithiau

Simon Thomas, *Hanes y byd a'r amseroedd, er hyfforddiad rhai o'r Cymru* (Mwythig 1718)

Simon Thomas, *Hanes y byd a'r amseroedd: er hyfforddiad rhai o'r Cymru* (Llundain 1721)

Simon Thomas, *Hanes y byd a'r amseroedd: er hyfforddiad rhai o'r Cymru* (Llundain 1721)

Simon Thomas, *Hanes y byd a'r amseroedd: er hyfforddiad rhai o'r Cymru* (Mwythig 1780)

Simon Thomas, *Hanes y byd a'r amseroedd: Er hyfforddiad rhai o'r Cymru* (Dolgelley 1799)

Simon Thomas, *Histori yr heretic Pelagius* (1735)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [58956700](#)

Wikidata: [Q20734398](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

